

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**

Children, Young People and Education Committee

Aled Evans,  
Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Y Cyngorydd Debbie Wilcox  
Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

16 Ionawr 2019

Annwyl gyfeillion,

**Cynnydd wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru**

Ar **10 Ionawr 2019**, bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar y Gweinidog dros Addysg ynghylch cynnydd Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru. Yn ystod y sesiwn hon, trafodwyd y wybodaeth yn eich **ymateb ar y cyd i ymgynghoriad ysgrifenedig y Pwyllgor** ar y pwnc hwn.

Yn eich ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, gwnaethoch godi nifer o bryderon sylweddol am y camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Trafododd yr Aelodau y pryderon hyn â'r Gweinidog yn y sesiwn yr wythnos diwethaf. Mynegodd y Gweinidog a'i swyddogion eu siom wedi iddynt ddarllen eich tystiolaeth, gan egluro bod ymdrechion pellach wedi'u gwneud – ac y byddent yn parhau i gael eu gwneud – i wella cyfathrebu yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd.

Yn benodol, dywedodd y Gweinidog a'i swyddogion yn eu tystiolaeth:

- nid oedd y wybodaeth yr oedd yr ymateb ar y cyd yn ymddangos fel petai'n seiliedig arni yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a CLILC, gan gynnwys y fersiynau diweddaraf o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad drafft a rannwyd;
- bod y dystiolaeth ar y cyd yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r weledigaeth ddatganedig o blaid diwygio'r cwricwlwm;
- mai cyfyngedig oedd ymgysylltiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru â chyfarfodydd bwrdd gweithredu'r cwricwlwm;




- nid oedd y pryderon a nodwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig wedi'u mynegi yn ystod cyfarfodydd rheolaidd rhwng cynrychiolwyr CLILC/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r Gweinidogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru; a
- bod unrhyw anghysondeb rhwng yr ymateb ar y cyd a thystiolaeth y Consortia Rhanbarthol yn destun pryder.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i roi cyfle i CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ymateb i'r pwyntiau a wnaed yn y sesiwn ar 10 Ionawr, ac i egluro, yn benodol, eich safbwynt perthnasol mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau a restrir uchod, ac unrhyw faterion eraill a godwyd y mae gennych farn arnynt.

O ystyried bod y Meysydd Dysgu a Phrofiad drafft ar fin cael eu cyhoeddi, a dymuniad aelodau'r Pwyllgor i sicrhau ein bod yn craffu ar gynnydd wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd mewn modd tryloyw ac amserol, byddem yn ddiolchgar pe byddai'n bosibl cael ymateb gennych cyn gynted ag y bo modd, heb fod yn hwyrach na **dydd Gwener 1 Chwefror 2019**.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

Wedi copïo i:

Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru

Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Pierre Bernhard-Grout, Swyddog Cyswllt/Polisi Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

